Neath Port Talbot Coast Path

The coast path in Neath Port Talbot has a number of diverse features and habitats. It forms part of the broad sweep of Swansea Bay, which historically, formed one of the most extensive stretches of coastal sand dunes in Wales.

Although industrialisation and settlement has changed the character of the area stretches of natural habitat are prevalent. Two routes have been established; one upland, and one lowland. The paths, although close together, vary in character and feature contrasting points of interest.

1 Upland Route

The upland route traverses along the mountains and offers superb views of the Bristol Channel and South Wales Coast.

On its Eastern side, after leaving Margam Moors, the route runs from Graig Fawr along the hillside passing Brombil before descending to the town of Port Talbot.

Heading west, the route ascends Mynydd Dinas, again affording you with views of Swansea Bay before it drops down to the River Neath to meet the lowland coast path, and onward to the city and county of Swansea.

Length: 10 miles / 16 km
Time: 4 - 5 hours
Class: Strenuous (A good level of fitness required - steep sections)

One Coastline...2 Routes

2 Lowland Route

The Eastern end of the Wales Coast Path starts at Kenfig National Nature Reserve. Here you cross the Kenfig river and skirt alongside the large expanse of Margam Moors. The new road, Harbour Way, takes you Westward to Port Talbot and on to the beach at Aberavon.

Initially, the walk is bordered by 2 giants. Tata steelworks, one of the largest in Europe, and, to the North, the mountains of the South Wales coalfield, home of the “best coal in the world”. In complete contrast are the sections of the path along the tidal River Afan, and the promenade at Aberavon. Here, there are extensive views across Swansea bay to the Mumbles, and the coast of Somerset and Devon.

At the western end, you enter a remnant dune system, and head due North along the Neath River.

You soon pass by the historic site of Brunel's Dock at Briton Ferry. After crossing the river Neath, via the road bridge, you head Westward, following the blue waymarks to Jersey Marine.

Here you reach the towpath of the Tennant canal. The national nature reserve of Crymlyn Bog is on the opposite bank, keep a look out for such exotics as the Fen Raft Spider, this is one of its few habitats in Britain.

At the end of the towpath you enter the City and county of Swansea and suburbia. The Gower peninsula awaits!

Length: 16 miles / 25 km
Time: 6 - 8 hours
Class: Moderate - Strenuous (Level paths, lots of stamina required)

Llwybr yr Arfordir Castell-nedd Port Talbot

Mae gan llwybr yr arfordir yng Nghastell-nedd Port Talbot nifer o nodweddion a chynefinoedd amrywiol. Mae’n rhan o ehangder Bae Abertawe, a oedd yn hanesyddol yn ffurfio un o’r ardaloedd mwyaf eang o dwyni tywod arfordirol yng Nghymru.

Mae diwydiannu dwys ac aneddiadau ar hyd yr arfordir, wedi lleihau’r system twyni tywod gwreiddiol i ardaloedd bach. Felly, mae dau lwybr wedi’u sefydlu; un uwchdir ac un iseldir. Mae’r llwybrau, er eu bod yn agos at ei gilydd, yn amrywio o ran nodweddion ac yn cynnwys mannau o ddiddordeb cyferbyniol.

1 Llwybr Uwchdir

Mae’r llwybr uwchdir sy’n mynd ar hyd y mynyddoedd yn cynnwys golygfeydd gwych o Fôr Hafren ac Arfordir De Cymru.

I’r dwyrain, mae’r llwybr yn baralel â Pharc Margam ac ar hyd Gweunydd Margam, gan groesi afon Cynffig i Warchodfa Natur Genedlaethol Cynffig. Yn y gorllewin mae’r llwybr uwchdir yn teithio trwy bentrefi hanesyddol Baglan, Llansawel a Jersey Marine, lle mae’n ymuno â llwybr halio Camlas Tennant.

Yma mae’n teithio ar hyd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Crymlyn, yr ardal fwyaf helaeth o ffeniau iseldir yng Nghymru, ac mae’n gadael y Fwrdeistref ym Mhort Tennat, Abertawe.

Hyd: 10 milltir / 16 km
Amser: 4 - 5 awr
Dosbarth: Egnïol (Mae angen lefel dda o ffitrwydd arnoch – adrannau serth)

Un Morlin... 2 Lwybr

2 Llwybr Iseldir

Mae rhan ddwyreiniol Llwybr Arfordir Cymru yn dechrau yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig. Yma rydych yn croesi afon Cynffig ac yn teithio ar hyd ardal eang Gweunydd Margam. Mae’r ffordd newydd, Ffordd yr Harbwr, yn mynd i’r gorllewin i Bort Talbot ac i’r traeth yn Aberafan.

I ddechrau, mae’r daith gerdded dan drem 2 gawr. Gwaith Dur Tata yw un o’r mwyaf yn Ewrop, ac i’r gogledd mae mynyddoedd maes glo de Cymru, cartref y “glo gorau yn y byd”. I’r gwrthwyneb mae rhannau o’r llwybr ar hyd afon llanw Afan, a’r promenâd yn Aberafan.

Yma, mae golygfeydd eang ar draws Bae Abertawe i’r Mwmbwls, ac arfordir Gwlad yr Haf a Dyfnaint. Yn y gorllewin, rydych yn cyrraedd gweddillion system twyni tywod arall, ac yn mynd tua’r gogledd ar hyd afon Nedd.

Yn y pen draw rydych yn cyrraedd safle hanesyddol Doc Brunel yn Llansawel. Ar ôl croesi afon Nedd, dros bont y ffordd, rydych yn mynd i gyfeiriad y gorllewin, gan ddilyn cyfeirbwyntiau glas i Jersey Marine.

Yma byddwch yn cyrraedd llwybr halio Camlas Tennant. Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Crymlyn gyferbyn. Cadwch lygad am bethau egsotig megis Corryn Rafft y Ffen. Dyma un o’i ychydig gynefinoedd ym Mhrydain.

Ar ddiwedd y llwybr halio rydych yn cyrraedd Dinas a Sir Abertawe a’i maestrefi. Mae penrhyn Gŵyr yn aros amdanoch!

Hyd: 16 milltir / 25 km
Amser: 6 - 8 awr
Dosbarth: Cymedrol – Egnïol (Llwybrau gwastad, angen llawer o stamina)

Traeth Aberafan

Aberavon Beach

Golygfa o Fae Abertawe a’r Mwmbwls o Fynydd Dinas

View of Swansea Bay and Mumbles from Mynydd Dinas

How To Get Here

The Neath Port Talbot Coast path is located within the sweep of Swansea Bay, between Bridgend to the east and Swansea to the West. It has excellent links by road from the M4, and also by rail.

The Neath Port Talbot Coast Path is part of the Wales Coast Path which aims to support local tourism and promote places of interest along its length.

Sut i Gyrraedd yma

Mae wedi’i leoli yn ehangder Abertawe gyda chysylltiadau gwych o’r M4, mae Llwybr Arfordir Castell-nedd Port Talbot yn cyfrannu rhannau amrywiol a diddorol i Lwybr Arfordir Cymru Gyfan.

Mae Llwybr yr Arfordir Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy’n ceisio cefnogi twristiaeth leol a hyrwyddo ardaloedd o ddiddordeb ar hyd y ffordd.



The completion of an 870 mile long Wales Coast Path (WCP) has been a key Welsh Government (WG) commitment. The development programme is managed by Natural Resources Wales (incorporating the former Countryside Council for Wales), and funded by Welsh Government, the European Regional Development Fund (through the Environment for Growth theme of the Convergence Programme) and the sixteen local authorities and two National Parks through which the path passes. The path provides a continuous walking route around the whole of Wales - from the Welsh border at the outskirts of Chester in the north to Chepstow in the south. It is as near to the coast as legally and physically practicable, whilst fully taking into account the needs of health and safety, land management and conservation.

Bu cwblhau Llwybr Arfordir Cymru (LlAC), sy’n 870 milltir o hyd, yn ymrwymiad allweddol gan Lywodraeth Cymru (LlC). Rheolir y rhaglen ddatblygu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (sy’n cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt), ac sy’n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop (trwy thema Amgylchedd ar gyfer Twf y Rhaglen Gydgyfeiriant) a’r 16 awdurdod lleol a’r ddau Barc Cenedlaethol y mae’r llwybr yn teithio trwyddynt. Mae’r llwybr yn darparu llwybr cerdded parhaus o amgylch Cymru gyfan – o ffin Cymru ar gyrion Caer yn y gogledd i Gas-gwent yn y de. Mae mor agos i’r arfordir ag sy’n gyfreithlon ac sy’n ymarferol, gan ystyried anghenion iechyd a diogelwch, rheolaeth tir a chadwraeth.

Llwybr Arfordir Cymru Wales Coast Path | Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales | Neath Port Talbot County Borough / Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Llywodraeth Cymru Welsh Government | ERDF – Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol / Europe & Wales: Investing in your Future

Time to Discover...

www.npt.gov.uk/walking

Aberdulais Tourist Information Centre

Email: **aberdulaistic@nationaltrust.org.uk** or Tel: **01639 636674**

Located at Aberdulais Tinworks and Waterfall, the Tourist Information Centre (TIC) have full details of all visitor attractions and leisure activities in the local area.

There is also more information and many other ideas of places to walk, including waterfall walks and other long distance trails on the above website.

Transport

The NPT Coast Path is accessible by public transport at various points.

Visit: **www.traveline-cymru.info** or Tel: **0871 200 2233**

For more on public transport go to **www.baytrans.org.uk**

The Countryside Code

Follow the Countryside Code and get the best out of the countryside. Help to maintain it now, and for the future.

- Be safe -plan ahead and follow signs
- Leave gates & property as you find them
- Protect plants and animals
- Take your litter home
- Keep dogs under control
- Consider other people

Respect. Protect. Enjoy

The information contained within this guide has been published in good faith on the basis of details supplied to Neath Port Talbot County Borough Council. NPTCBC cannot guarantee accuracy and accepts no responsibility for any errors in this brochure. Please check and confirm information before booking or travelling.

Amser i Ddarganfod...

www.npt.gov.uk/walking

Canolfan Croeso Aberdulais

E-bost: **aberdulaistic@nationaltrust.org.uk** neu Ffôn: **01639 636674**



Mae Canolfan Croeso Aberdulais (TIC) yng Ngwaith Tun a Rheadr Aberdulais. Mae ganddynt yr holl fanylion am yr holl atyniadau a gweithgareddau hamdden i ymwelwyr yn yr ardal leol.

Peidiwch ag anghofio casglu eich copi o Arweiniad i Ymwelwyr CNPT, Deg Taith Gerdded Orau a phecyn Cerdded Gwlad y Sgydau.

Cludiant

Gellir cyrraedd Llwybr yr Arfordir CNPT ar gludiant cyhoeddus mewn mannau penodol.

Ewch i **www.traveline-cymru.info** neu ffoniwch **0871 200 2233**

Am fwy o wybodaeth am gludiant cyhoeddus, ewch i **www.baytrans.org.uk**

Y Côd Cefn Gwlad

Dilynwch y Côd Cefn Gwlad a gwnewch y mwyaf o’r cefn gwlad. Helpwch i’w gynnal a’i gadw nawr, ac ar gyfer y dyfodol.

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch ymlaen llaw a dilynwch arwyddion
- Ewch â’ch sbwriel gartref
- Gadewch gatiau ac eiddo fel y daethoch o hyd iddynt
- Rheolwch eich cŵn
- Diogelwch blanhigion ac anifeiliaid
- Ystyriwch bobl eraill

Parchu, Gwarchod a Mwynhau

Mae’r wybodaeth yn y daflen hon wedi’i chyhoeddi’n ddidwyll ar sail y manylion a roddwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Ni all CBSCNPT warantu cywirdeb y daflen ac nid yw’n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriadau yn y daflen hon. Gwiriwch a chadarnhewch yr wybodaeth cyn cadw lle neu deithio.

Neath Port Talbot Coast Path
Llwybr yr Arfordir **Castell-nedd Port Talbot**



www.npt.gov.uk/walking

Part of the All Wales Coast Path
Rhan o’r Llwybr Arfordir Cymru Gyfan